- (3) Written notice of any appeal referred to in subsection (1) shall be delivered to the Registrar of the Provincial Court within 28 days from the date of the decision which is the subject of the appeal.

26

Subject to the provisions of the Constitution, each Chancellor, with respect to the granting of marriage licences and the appointment of surrogates, shall, in addition to any jurisdiction or powers conferred upon him or her by the Constitution, have the jurisdiction and powers (except as to fees) to which a Chancellor was entitled on 30th March 1920, and shall exercise such jurisdiction and powers according to the law and practice at that time prevailing.

27.

Appointment of the Diocesan Registrar

- (1) The Bishop shall, from time to time as occasion may require, appoint a fit and proper person to be Registrar of the diocese and of the Diocesan Court.
- (2) The person appointed Registrar shall be over the age of thirty years and legally qualified.
- (3) The Bishop may, from time to time as occasion may require, appoint a fit and proper person to act as Deputy Registrar, and every person so appointed shall have all the powers and may perform all the duties of the Registrar for whom he or she is appointed to act, provided always that every Deputy Registrar shall fulfil the requirements of subsection (2).
- (4) Every Diocesan Registrar and Deputy Registrar not having previously resigned or been removed from office shall, if holding office on 17 April 1980, retire on his or her seventy-fifth birthday, and if appointed to office after that date retire on his or her seventieth birthday.
- (5) No Diocesan Registrar or Deputy Registrar shall be removed from office except by order of the Bishop and any such Registrar or Deputy Registrar shall have a right of appeal to the Provincial Court against the order within a period of six weeks after receipt by him or her of notice of the making of the order.

(6) Bydd gan y Cofrestrydd hawl i gyflog a bennir ac a delir gan Fwrdd Cyllid yr esgobaeth.

(7) Gall yr Esgob, wrth benodi Dirprwy Gofrestrydd, fynegi mewn ysgrifen i Fwrdd Cyllid yr esgobaeth pa gyfran, os bydd cyfran, o gyflog y Cofrestrydd a delir i'r Dirprwy, ac wedi hynny bydd Bwrdd Cyllid yr esgobaeth yn talu i'r Cofrestrydd a'r Dirprwy yn unol â'r gyfran a fynegwyd gan yr Esgob.

(8) Bydd yr holl alluoedd a dyletswyddau a berthyn i Gofrestrydd ac a draethir yn y Ddogfen Benodi yn parhau mewn grym er bod yr esgobaeth yn wag, heb angen Dogfen Benodi ychwanegol tra bo'r esgobaeth yn wag.

28.

Bydd pob Canghellor a Dirprwy Ganghellor, cyn dechrau ar waith ei swydd, yn gwneud ac yn arwyddo yng ngŵydd yr Esgob, ddatganiad yn y ffurf hon:

Yr wyf fi, J ... S ..., trwy hyn yn difrifol ddatgan fy mod yn gymunwr dros ddeg ar hugain mlwydd oed, yn gyfreithiol gymwys a hefyd yn gymwys i fod yn aelod o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, ac nad wyf yn aelod o'r un corff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru.

Rhan V: Llys y Dalaith

Aelodaeth

29.

(1) Aelodau Llys y Dalaith fydd pedwar Barnwr eglwysig a chwe Barnwr lleyg a benodir gan Fainc yr Esgobion, a bydd y Fainc yn yr un modd o bryd i'w gilydd yn enwi un o'r Barnwyr i fod yn llywydd Llys y Dalaith.

(2) Bydd pob Barnwr eglwysig yn Llys y Dalaith yn glerig a fu mewn Urddau Sanctaidd am o leiaf bymtheng mlynedd ac nad yw wedi ymddeol na chyrraedd ei b/phen-blwydd yn ddeg a thrigain mlwydd oed; bydd pob Barnwr lleyg yn gymunwr dros bymtheg ar hugain oed ac o dan bymtheg a thrigain oed ac yn gyfreithiol gymwys.

(6) The Registrar shall be entitled to a salary to be fixed and paid by the Diocesan Board of Finance.

(7) The Bishop, on the appointment of a Deputy Registrar, may indicate in writing to the Diocesan Board of Finance what proportion, if any, of the salary of the Registrar shall be paid to the Deputy, and thereafter the Diocesan Board of Finance shall pay the Registrar and the Deputy in accordance with the proportion indicated by the Bishop.

(8) All the powers and duties of a Registrar as set out in his or her Deed of Appointment shall continue to be exercisable notwithstanding a vacancy in the see, without the necessity for a further Deed of Appointment during a vacancy.

28.

Every Chancellor and Deputy Chancellor, before entering upon the duties of office, shall make and sign in the presence of the Bishop a declaration in the following form:

I, J... S..., do hereby solemnly declare that I am a Communicant over thirty years of age, legally qualified and also qualified to be a member of the Governing Body of the Church in Wales, and that I do not belong to any religious body which is not in communion with the Church in Wales.

Part V: The Provincial Court

Composition

29.

(1) The Provincial Court shall consist of four ecclesiastical Judges and six lay Judges, to be appointed by the Bench of Bishops which shall likewise from time to time nominate one of the lay Judges to be President of the Court.

(2) The ecclesiastical Judges of the Provincial Court shall be clerics of not less than fifteen years' standing in Holy Orders who are not retired and who have not reached their seventieth birthdays; the lay Judges of the Court shall be Communicants over the age of thirty-five years and under the age of seventy-five and legally qualified.

(3) Rhaid i'r Barnwyr hyn fod yn gymwys i fod yn aelodau o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru neu o Synod Gyffredinol Eglwys Loegr, a chyn dechrau ar waith ei swydd rhaid iddynt wneud ac arwyddo yng ngŵydd Esgob Cadeiriol ddatganiad yn y ffurf hon:

Yr wyf f i, J ... S ..., trwy hyn yn difrifol ddatgan

(a) fy mod wedi fy ordeinio ers mwy na phymtheng mlynedd,

neu

(b) fy mod yn gymunwr dros bymtheg ar hugain mlwydd oed, yn gyfreithiol gymwys, a'm bod yn gymwys i fod yn aelod o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru (neu o Synod Gyffredinol Eglwys Loegr), ac nad wyf yn aelod o'r un corff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru.

(4) Mewn unrhyw achos pan fo Esgob neu Esgob Cynorthwyol yn wrthrych apêl at Lys y Dalaith gan y Tribiwnlys bydd aelodaeth Llys y Dalaith yn cynnwys Esgob neu Esgob Cynorthwyol na fu ganddo unrhyw ran flaenorol yn yr achos, wedi ei enwebu gan y Llywydd, a bydd yn aelod llawn o'r Llys a fydd yn ymdrin â'r achos y penodwyd ef ar ei gyfer.

(5) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r bennod hon, ni ddiswyddir Barnwr ond ar orchymyn Mainc yr Esgobion, wedi'i gadarnhau gan fwyafrif ar wahân o Urdd Clerigion ac Urdd Lleygion y Corff Llywodraethol.

(6) (a) Yn ddarostyngedig i baragraff (b), bydd pob Barnwr yn dal ei swydd am saith mlynedd neu hyd ymddiswyddo neu ei ddiswyddo, ond bydd ar dir i'w ail-benodi.

(b) Bydd Barnwr eglwysig yn cilio o'i swydd pan fo'n ymddeol neu'n cyrraedd ei b/phen-blwydd yn ddeg a thrigain oed, pa un bynnag fydd gyntaf, a bydd pob Barnwr lleyg yn cilio o'i swydd ar gyrraedd ei b/phen-blwydd yn bymtheg a thrigain oed ac eithrio, yn y naill achos a'r llall, y gall gwblhau gwrandao achos y mae a wnelo eisoes ag ef.

(7) Bydd Mainc yr Esgobion yn llenwi pob lle gwag ymysg barnwyr Llys y Dalaith trwy benodi Barnwr eglwysig neu lleyg, yn ôl y digwydd, yn yr un modd ac ar yr un amodau ag wrth benodi gyntaf.

30.

Bydd un Barnwr eglwysig a dau Farnwr lleyg yn gworwm Llys y Dalaith, a'u dyfarniad hwy neu ddyfarniad y mwyafrif ohonynt fydd dyfarniad y Llys.

(3) Such Judges must be qualified to be members of the Governing Body of the Church in Wales or of the General Synod of the Church of England, and before entering upon the duties of their office shall make and sign in the presence of a Diocesan Bishop a declaration in the following form:

I, J... S..., do hereby solemnly declare that

(a) I have been ordained for more than fifteen years,

or

(b) I am a Communicant over thirty-five years of age, legally qualified and that I am qualified to be a member of the Governing Body of the Church in Wales (or of the General Synod of the Church of England), and that I do not belong to any religious body which is not in communion with the Church in Wales.

(4) In any case in which a Bishop or an Assistant Bishop is the subject of an appeal to the Provincial Court from the Tribunal the membership of the Provincial Court shall include a Bishop or an Assistant Bishop who has not been previously involved at any stage of the case nominated by the President and who shall serve as a full member of the Court dealing with the case for which he is nominated.

(5) Subject to the provisions of this chapter, no Judge shall be removed from office except by order of the Bench of Bishops, confirmed by separate majorities of the Orders of the Clergy and the Laity of the Governing Body.

(6) (a) Subject to paragraph (b) each Judge shall hold office for seven years or until resignation or removal from office but shall be eligible for reappointment.

(b) Each Judge shall cease to hold office in the case of an ecclesiastical Judge on his or her retirement or on reaching the Judge's seventieth birthday whichever is the earlier and in the case of a lay Judge upon his or her seventy-fifth birthday except in either case for the purpose of completing the hearing of a case in which the Judge is already engaged.

(7) The Bench of Bishops shall fill any judicial vacancy in the Provincial Court by appointing an ecclesiastical or a lay Judge, as the case may be, in the same manner and upon the same conditions as obtained in the original appointment.

30.

One ecclesiastical and two lay Judges shall form a quorum of the Provincial Court, and their judgement or the judgement of the majority of them shall be the judgement of the Court.

31.

Nid anghymhwysir Barnwr na'i atal rhag gwrando a phenderfynu ar achos gan y ffaith ei fod yn aelod o ryw gorff yn yr Eglwys yng Nghymru sy'n un o'r pleidiau yn yr achos, eithr ni chaniateir, mewn achos yn ymwneud ag aelod o'r Eglwys yng Nghymru, i nac Esgob na Changhellor unrhyw esgobaeth y mae'r cyfryw aelod naill ai'n dal swydd neu'n byw ynddi gymryd rhan.

Awdurdod

32.

- (1) Bydd gan Lys y Dalaith y gallu i wrando a phenderfynu ar:
 - (a) apeliadau o Lys Esgobaeth;
 - (b) apeliadau o'r Tribiwnlys Disgyblu;
 - (c) apeliadau ynglŷn â sefydlu, coladu, enwebu i ofalaethau, methiant a hawliau penodi yn ymwneud â Chlerigion;
 - (d) unrhyw apeliadau neu faterion eraill a gyfeirir ato yn unol â'r Cyfansoddiad.
- (2) Bydd Llys y Dalaith yn cyflafareddu yn achos:
 - (a) unrhyw anghydfod rhwng Aelod o'r Eglwys yng Nghymru a Chorff y Cynrychiolwyr;
 - (b) unrhyw anghydfod rhwng Aelod o'r Eglwys yng Nghymru a Chynhadledd Esgobaeth; ac
 - (c) unrhyw apeliadau neu faterion eraill a gyfeirir ato yn unol â'r Cyfansoddiad.
- (3) Cyflwynir rhybudd ysgrifenedig o unrhyw apêl y cyfeirir ati yn is-adran (1) i gofrestrydd Llys y Dalaith o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

33.

Bydd penderfyniad Llys y Dalaith ar apêl neu gyflafareddiad yn derfynol a rhaid iddo ei hysbysu i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol, Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr, Ysgrifennydd unrhyw gorff yn yr Eglwys yng Nghymru y mae'r sawl y mae'r gorchymyn yn effeithio arno yn aelod ohono, ac Ysgrifennydd Cyngor Plwyf Eglwysig unrhyw blwyf y mae naill ai'n dal swydd neu'n byw ynddo.

31.

No Judge shall be disqualified or prevented from hearing and determining a case by reason of the fact that such Judge is a member of a body in the Church in Wales which is a party to the proceedings, save that on the hearing of a case involving a Member of the Church in Wales neither the Bishop nor the Chancellor of any diocese in which such member either holds office or resides shall sit.

Jurisdiction

32.

- (1) The Provincial Court shall have power to hear and determine:
 - (a) appeals from a Diocesan Court;
 - (b) appeals from the Disciplinary Tribunal;
 - (c) appeals with reference to institutions, collations, nominations to cures, and rights of appointment relating to Clerics;
 - (d) any other appeals or matters referred to it in accordance with the Constitution.
- (2) The Provincial Court shall arbitrate:
 - (a) any dispute between a Member of the Church in Wales and the Representative Body;
 - (b) any dispute between a Member of the Church in Wales and a Diocesan Conference; and
 - (c) any other appeal or matter referred to it in accordance with the Constitution.
- (3) Written notice of any appeal referred to in subsection (1) shall be delivered to the Registrar of the Provincial Court within 28 days of the date of the decision being given which is the subject of the appeal.

33.

The decision of the Provincial Court on the appeal or the arbitration shall be final and the Provincial Court shall give notice thereof to the Secretaries of the Governing Body, the Secretary of the Representative Body, the Secretary of any body in the Church in Wales of which the party affected is a member and the Secretary of the Parochial Church Council of any Parish or Benefice in which such party either holds office or resides.

34.

Gall Llys y Dalaith atal unigolyn neu unrhyw gorff yn yr Eglwys yng Nghymru (ac eithrio'r Corff Llywodraethol neu Gorff y Cynrychiolwyr) am esgeuluso neu wrthod ufuddhau i unrhyw ddyfarniad, dedfryd neu orchymyn, fel y digwydd, o eiddo'r Archesgob, Esgob Cadeiriol neu unrhyw Lys, eithr ni fydd gorchymyn i atal Cynhadledd Esgobaeth yn ddilys heb gydsyniad yr Esgob.

35.

Penodi Cofrestrydd Llys y Dalaith

- (1) Bydd Llys y Dalaith o bryd i'w gilydd yn ôl y galw yn penodi person cymwys a phriodol i fod yn Gofrestrydd y Llys.
- (2) Rhaid i'r sawl a benodir yn Gofrestrydd fod yn gymunwr dros ddeg ar hugain mlwydd oed, yn gyfreithiol gymwys a hefyd yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol.
- (3) Bydd gan y Cofrestrydd hawl i gyflog i'w bennu a'i dalu gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.
- (4) Rhaid i Gofrestrydd nad yw eisoes wedi ymddiswyddo neu wedi ei ddiswyddo ymdeol ar ei ben-blwydd neu ei phen-blwydd yn ddeg a thrigain.
- (5) Ni ellir diswyddo Cofrestrydd ond trwy orchymyn Llywydd Llys y Dalaith a bydd gan y Cofrestrydd hawl i apelio yn erbyn y cyfryw orchymyn.
- (6) Bydd y weithdrefn i'w dilyn ynglŷn ag unrhyw apêl o'r fath fel a ganlyn:
 - (a) rhoddir rhybudd o'r apêl mewn ysgrifen i Gofrestrydd yr Archesgob o fewn 28 diwrnod wedi i Gofrestrydd Llys y Dalaith dderbyn hysbysiad o'r gorchymyn;
 - (b) gwrandewir yr apêl gan banel o bum aelod wedi eu penodi gan yr Archesgob yn unol â'r is-baragraff dilynol nesaf wedi iddo ymgynghori ag aelodau eraill Mainc yr Esgobion;
 - (c) bydd y panel yn cynnwys aelodau cymwys i fod yn aelodau o'r Corff Llywodraethol, dau ohonynt yn glerigion a thri yn aelodau lleyg, a dau o'r cyfryw aelodau lleyg gyda chymwysterau cyfreithiol;
 - (d) bydd y panel yn penderfynu ar ei reolau trefniadaeth ei hun; a
 - (e) bydd dyfarniad y panel yn derfynol.
- (7) Bydd y Cofrestrydd yn dal ei swydd yn ddarostyngedig i'r rheolau uchod ac yn ddarostyngedig hefyd i unrhyw delerau neu amodau pellach a osodir gan Lys y Dalaith.

34.

The Provincial Court may suspend a person or any body of the Church in Wales (except the Governing Body or the Representative Body) for neglecting or refusing to obey any judgement, sentence or order, as the case may be, of the Archbishop, a Diocesan Bishop or any Court provided always that no order suspending a Diocesan Conference shall be valid without the consent of the Bishop.

35.

Appointment of Registrar of the Provincial Court

(1) The Provincial Court shall, from time to time as occasion may require, appoint a fit and proper person to be Registrar of the Court.

(2) The person appointed Registrar shall be a communicant over the age of thirty years, legally qualified and qualified to be a member of the Governing Body.

(3) The Registrar shall be entitled to a salary to be fixed and paid by the Representative Body of the Church in Wales.

(4) The Registrar not having previously resigned or been removed from office shall retire on his or her seventieth birthday.

(5) The Registrar shall not be removed from office except by order of the President of the Provincial Court and the Registrar shall have the right of appeal against such order.

(6) The procedure to be adopted in respect of any such appeal shall be as follows:

(a) notice of appeal shall be given in writing to the Archbishop's Registrar within a period of 28 days after receipt by the Registrar of the Provincial Court of notice of the making of the order;

(b) the appeal shall be heard by a panel of five members appointed by the Archbishop in accordance with the next following sub-paragraph after consultation with the other members of the Bench of Bishops;

(c) the panel shall comprise members qualified to be members of the Governing Body, of whom two shall be clerics and three shall be lay members, two of which lay members shall be legally qualified;

(d) the panel shall settle its own rules of procedure; and

(e) the decision of the panel shall be final.

(7) The Registrar shall hold office subject to the foregoing and subject also to any further terms or conditions laid down by the Provincial Court.

36.

(1) Os bydd y Cofrestrydd yn glaf neu'n methu gweithredu dros dro, gall Llys y Dalaith benodi person cymwys a phriodol i weithredu'n Ddirprwy Gofrestrydd yn ystod y cyfryw afiechyd neu anallu; a bydd gan y sawl a benodir felly bob gallu a bydd yn cyflawni pob dyletswydd a berthyn i'r Cofrestrydd y penodwyd y Dirprwy i weithredu yn ei le, ar yr amod bob amser bod pob Dirprwy Gofrestrydd yn cyflawni gofynion adran 35(2).

(2) Telir i'r Dirprwy Gofrestrydd am ei wasanaeth neu ei gwasanaeth y swm hwnnw a farno Corff y Cynrychiolwyr yn gymwys.

37.

Bydd Cofrestrydd Llys y Dalaith ac unrhyw Ddirprwy Gofrestrydd iddo, cyn dechrau ar waith ei swydd, yn gwneud ac yn arwyddo yng ngŵydd un o Farnwyr Llys y Dalaith, ddatganiad yn y ffurf hon:

Yr wyf fi, J ... S ..., trwy hyn yn difrifol ddatgan fy mod yn gymunwr dros ddeg ar hugain mlwydd oed, yn gyfreithiol gymwys a hefyd yn gymwys i fod yn aelod o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, ac nad wyf yn aelod o'r un corff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru.

Rhan VI: Y Pwyllgor Rheolau

Pwyllgor Rheolau Tribiwnlys a Llysoedd yr Eglwys yng Nghymru

38.

(1) Bydd Pwyllgor Rheolau i Dribiwnlys a Llysoedd yr Eglwys yng Nghymru, a chanddo'r gallu i wneud a chyhoeddi rheolau at roi mewn grym ddarpariaethau'r Cyfansoddiad, yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â hawlebau ac â rheoleiddio pob mater y mae a wnelo â gweinyddu, arfer neu drefn gweithredu'r Tribiwnlys neu unrhyw un o Lysoedd yr Eglwys yng Nghymru.

(2) Gall y Pwyllgor Rheolau o bryd i'w gilydd newid neu amrywio'r rheolau.

(3) Aelodau'r Pwyllgor Rheolau fydd un o Farnwyr eglwysig Llys y Dalaith a dau o'i Farnwyr lleyg wedi'u henwebu gan Lywydd Llys y Dalaith, dau aelod lleyg o'r Tribiwnlys wedi'u henwebu gan Lywydd y Tribiwnlys, a dau Ganghellor nad ydynt eisoes yn aelodau o'r Pwyllgor.

(4) Ni fydd methiant aelod o'r Pwyllgor Rheolau i fod yn bresennol yn un o'i gyfarfodydd yn rhwystro'r Pwyllgor rhag mynd ymlaen â'i waith nac yn annilysu'i weithrediadau.

36.

(1) In case of the illness or temporary incapacity of the Registrar, the Provincial Court may appoint a fit and proper person to act as Deputy Registrar during such illness or incapacity, and every person so appointed shall have all the powers and perform all the duties of the Registrar for whom he or she is appointed to act, provided always that every Deputy Registrar shall fulfil the requirements of section 35(2).

(2) The Deputy Registrar shall be paid for his or her services such sum as the Representative Body shall think fit.

37.

The Registrar of the Provincial Court, and any Deputy Registrar thereof, before entering upon the duties of office, shall make and sign in the presence of a Judge of the Provincial Court a declaration in the following form:

I, J... S..., do hereby solemnly declare that I am a Communicant over thirty years of age, legally qualified and also qualified to be a member of the Governing Body of the Church in Wales, and that I do not belong to any religious body which is not in communion with the Church in Wales.

Part VI: The Rule Committee

The Rule Committee of the Tribunal and the Courts of the Church in Wales

38.

(1) There shall be a Rule Committee of the Tribunal and Courts of the Church in Wales which shall make and publish rules for carrying into effect the provisions of the Constitution including provisions relating to faculties and for regulating all matters whatsoever relating to the administration, practice and procedure of the Tribunal or any of the Courts of the Church in Wales.

(2) The Rule Committee may from time to time alter or vary the rules.

(3) The Rule Committee shall consist of one ecclesiastical and two lay Judges of the Provincial Court nominated by the President of the Provincial Court, two lay members of the Tribunal nominated by the President of the Tribunal and two Chancellors who are not already members of the Committee.

(4) The failure of a member of the Rule Committee to attend a meeting shall not prevent the Committee proceeding with the despatch of business nor invalidate its proceedings.

(5) Rhaid i dri neu fwy o aelodau'r Pwyllgor Rheolau arwyddo copi o unrhyw reol newydd a wneir gan y Pwyllgor a'i osod gyda Chofrestrydd Llys y Dalaith, a rhaid iddo yntau, cyn gynted ag y gellir wedi hynny, anfon copi wedi'i ardystio o'r cyfryw reol newydd i bob un o Farnwyr Llys y Dalaith, pob aelod o'r Tribiwnlys, Cofrestrydd y Tribiwnlys, Canghellor pob esgobaeth a Chofrestrydd pob esgobaeth. I ddiben yr isadran hon cyfrifir unrhyw reol y gwneir newid ynddi yn rheol newydd.

Rhan VII: Amrywiol alluoedd a darpariaethau yn ymwneud ag Esgobion Cadeiriol

39.

Bydd gan Esgob Cadeiriol yr hawl i atal o'i swydd unrhyw un sy'n dal swydd yn ei esgobaeth ac y gwnaed cyhuddiad yn ei erbyn nes bod yr achos yn ei erbyn wedi'i wrando a'i benderfynu, ac i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r swydd honno yn y cyfamser.

40.

Bydd gan Esgob Cadeiriol y gallu i orchymyn na chaiff Clerig neu ddiacones a ataliwyd fyw mewn Persondy a ddiffinnir ym Mhennod VII adran 1(d) na dal meddiant ar y clastir tra bo wedi'i atal, a gall orchymyn i'r cyfryw Glerig neu ddiacones drosglwyddo pob llyfrau, allweddi, ac eiddo arall a ddelir ganddo neu ganddi yn rhinwedd ei swydd i'r sawl a benodo'r Esgob i ddal yr eiddo hwnnw dros ac ar ran Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth.

41.

Bydd yn gyfreithlon i Esgob yr Esgobaeth drwy ysgrifen dan ei law orchymyn atafaelu unrhyw gyflog, neu ryw ran o'r cyfryw gyflog a fyddai fel arall yn daladwy i Glerig neu ddiacones a ataliwyd, dros y cyfryw gyfnod ac ar yr amodau a farno'r Esgob yn gymwys, a rhaid i'r Esgob anfon copi o'r gorchymyn i Ysgrifennydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth ac iddo yntau gyflawni amodau'r gorchymyn.

42.

(1) Pan ddaw cyfnod rhoi rhybudd am unrhyw apêl i ben neu pan wrthoda Llys y Dalaith apêl gan Glerig y gorchymynnwyd ei ddiswyddo o Urddau Sanctaidd a'i ddiarddel o swydd Clerig yn yr Eglwys yng Nghymru, bydd Esgob yr esgobaeth y mae'r Clerig yn dal swydd neu'n byw ynddi yn :

- (i) cyflawni Gweithred Diswyddo;
- (ii) peri cofrestru'r cyfryw yng Nghofrestrfa Archesgob Cymru.

(5) A copy of any new rule made by the Rule Committee shall be signed by three or more members of the Committee and be deposited with the Registrar of the Provincial Court who, as soon as practicable thereafter, shall send a certified copy of such new rule to each Judge of the Provincial Court, each member of the Tribunal, the Registrar of the Tribunal, each Diocesan Chancellor and each Diocesan Registrar. For the purpose of this subsection any rule in which a change is made shall be deemed to be a new rule.

Part VII: Miscellaneous powers and provisions relating to Diocesan Bishops

39.

A Diocesan Bishop shall have power to suspend from office, until the hearing and determination of a case, any person holding office in his diocese against whom a charge is pending, and to make arrangements for carrying out the duties of that office during such suspension.

40.

A Diocesan Bishop shall have the power to order that a suspended Cleric or deaconess shall not reside in the Parsonage as defined in Chapter VII section 1(d) or retain possession of the glebe lands during suspension, and that such Cleric or deaconess shall deliver up all books, keys and other property held by him or her in virtue of office to such person or persons as the Bishop may appoint to have custody thereof for and on behalf of the Diocesan Board of Finance.

41.

It shall be lawful for the Diocesan Bishop, by writing under his hand, to order that any stipend otherwise payable to a suspended Cleric or deaconess, or any part of such stipend, shall be sequestered for such period and subject to such conditions as the Bishop may think fit, and the Bishop shall forward a copy of the order to the Secretary of the Diocesan Board of Finance, who shall carry out the terms thereof.

42.

(1) Upon the expiry of the period for the giving of notice of any appeal or upon the dismissal of an appeal by the Provincial Court in relation to a Cleric against whom an order has been made that the Cleric be deposed from Holy Orders and expelled from the office of Cleric in the Church in Wales, the Bishop of the Diocese in which the Cleric holds office or resides shall:

- (i) execute a Deed of Deposition; and
- (ii) cause the same to be enrolled in the Registry of the Archbishop of Wales.

(2) Bydd Cofrestrydd yr Archesgob ar unwaith yn trosglwyddo copi swyddfa o gofrestrriad y Weithred i'r Clerig ac i Esgob yr esgobaeth ac yn rhoi rhybudd i'r Archesgob ei fod wedi gwneud hynny.

(3) Wedi derbyn y copi swyddfa am gofrestru'r Weithred, bydd Esgob yr esgobaeth yn peri cofnodi'r Weithred yng Nghofrestrfa'r Esgobaeth, ac ar hynny ac wedi hynny (ond nid cyn hynny) bydd yr un canlyniadau'n dilyn parthed y sawl a ddiswyddwyd ac a diarddelwyd yn y Weithred â phe bai ef neu hi wedi cyflawni, cofrestru a chofnodi Gweithred Ildio.

(4) Pan orchymynno'r Tribiwnlys amddifadu neu atal a phan ddaw'r cyfnod rhoi rhybudd o apêl i ben neu i Lys y Dalaith wrthod apêl gan Glerig y gwnaed gorchymyn o'r fath yn ei erbyn, rhaid i Esgob yr esgobaeth, wrth orchymyn yr amddifadu neu'r atal, hysbysu hynny i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol, Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr, Ysgrifennydd unrhyw gorff yn yr Eglwys yng Nghymru y mae'r sawl y mae'r gorchymyn yn effeithio arno yn aelod ohono, ac Ysgrifennydd Cyngor Plwyf Eglwysig unrhyw blwyf y mae naill ai'n dal swydd neu'n byw ynddo.

Rhan VIII – Ymweliadau

43.

(1) Cynhelir Ymweliadau Archesgobol megis cynt, a'r un fydd y gyfraith a'r arfer ynglŷn â hwy ag a oedd mewn grym ar 30 Mawrth 1920.

(2) Cynhelir Ymweliadau Esgobol ym mhen y cyfryw gyfnodau ag a benderfynir gan yr Esgob, a'r Esgob fydd yn penderfynu ffurf y cyfryw Ymweliad.

(3) Bydd Archddiaconiaid yn cynnal Ymweliadau cyson â holl blwyfi'r archddiaconiaeth, a'r Archddiacon fydd yn penderfynu ffurf yr Ymweliad yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd gan y Corff Llywodraethol.

(2) The Archbishop's Registrar shall forthwith deliver an office copy of the enrolment of the Deed to the Cleric and to the Diocesan Bishop and shall give notice to the Archbishop of having done so.

(3) Upon receipt of the office copy of the enrolment of the Deed, the Diocesan Bishop shall cause the Deed to be recorded in the Registry of the Diocese, and thereupon and thenceforth (but not sooner) the same consequences shall ensue with regard to the person deposed and expelled in the Deed as if he or she had executed, enrolled and recorded a Deed of Relinquishment.

(4) Upon the making by the Tribunal of an order of deprivation or suspension and upon the expiry of the period for giving notice of any appeal or upon the dismissal of an appeal by the Provincial Court in relation to a Cleric against whom such an order has been made on making an order of such deprivation or suspension the Diocesan Bishop shall give notice thereof to the Secretaries of the Governing Body, the Secretary of the Representative Body, the Secretary of any body in the Church in Wales of which the party effected is a member, and the Secretary of the Parochial Church Council of any Parish in which such party either holds office or resides.

Part VIII – Visitations

43.

(1) Archiepiscopal Visitations shall be held as heretofore, and the law and practice relating thereto shall be that prevailing on 30 March 1920.

(2) Episcopal Visitations shall be held at such intervals as the Bishop may decide, and the form of such a Visitation shall be determined by the Bishop.

(3) Archdeacons shall conduct regular Visitations of all Parishes in their archdeaconries, and subject to any direction by the Governing Body the form of such a Visitation shall be determined by the Archdeacon.

Rhan IX – Rhestr Cofrestrydd yr Archesgob

44.

(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn yr adran hon, bydd yn ddyletswydd ar Gofrestrydd yr Archesgob i gadw rhestr o bob Clerig:

- (a) a gosbwyd neu a geryddwyd (gyda'u cydsyniad neu fel arall) dan y bennod hon; neu
- (b) a ddiswyddwyd o Urddau Sanctaidd; neu
- (c) a ymddiswyddodd yn dilyn dwyn cyhuddiad ysgrifenedig yn eu herbyn gerbron yr Esgob;

a bydd y cyfryw restr yn cynnwys manylion am y gosb neu'r cerydd neu fanylion yr achwyniad a arweiniodd at yr ymddiswyddiad.

(2) Pan fo Cofrestrydd yr Archesgob wedi cynnwys yn y rhestr un sy'n dod dan baragraffau (a) neu (c) isadran (1), bydd yn cymryd pob cam rhesymol i hysbysu'r person hwnnw mewn ysgrifen i hynny gael ei wneud ac o'r manylion a gofnodwyd ynglŷn ag ef. Gall y person hwnnw ofyn i Lywydd Llys y Dalaith adolygu'r mater ac, ar derfyn yr adolygiad, bydd Llywydd Llys y Dalaith yn gorchymyn parhau i gynnwys y person hwnnw ar y rhestr neu ei symud oddi arni ac, yn yr achos cyntaf, newid y manylion a gofnodwyd yn y modd y bydd y Llywydd yn ei nodi.

(3) Bydd yn ddyletswydd ar Gofrestrydd yr Archesgob i adolygu, yn y cyfryw fodd ag y gellir ei bennu, cynnwys person ar y rhestr, ymhen pum mlynedd ar ôl gwneud hynny a hefyd os bydd y person hwnnw neu Esgob Cadeiriol yn gofyn iddo wneud hynny.

Ar yr amod na fydd gan y person hwnnw yr hawl i wneud cais o dan yr isadran hon yn ystod y cyfnod dywededig o bum mlynedd nac ychwaith yn ystod y pum mlynedd a fydd yn dilyn unrhyw adolygiad blaenorol.

Part IX – Archbishop’s Registrar’s List

44.

(1) Subject to the following provisions of this section, it shall be the duty of the Archbishop’s Registrar to maintain a list of all Clerics:


- (a) on whom a penalty or censure (by consent or otherwise) has been imposed under this chapter; or
- (b) who have been deposed from Holy Orders; or
- (c) who have resigned preferment following the making of a complaint in writing against them to the Bishop;

and such list shall comprise particulars of the penalty or censure or details of the complaint which led to the resignation.

(2) Where the Archbishop’s Registrar has included a person falling within paragraphs (a) or (c) of subsection (1) in the list he or she shall take all reasonable steps to inform that person in writing that he or she has done so and of the particulars recorded in respect of that person. That person may request the President of the Provincial Court to review the matter and upon such a review the President of the Provincial Court shall direct that that person should continue to be included in the list or should be excluded there from and, in the former case, may also direct that the particulars relating to that person should be altered in such a manner as he may specify.

(3) It shall be the duty of the Archbishop’s Registrar to review the inclusion of a person in the list, in such manner as may be prescribed, on the expiry of the period of five years following the inclusion and also if requested to do so by that person or by the Bishop of a Diocese.

Provided that that person shall not be entitled to make a request under this subsection within the said period of five years nor within the period of five years following any previous review.



**Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru.
Argraffwyd ar ddefnyddiau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department.
Printed on recycled materials**